

Cydymdeimlad a Chofion

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mr Trebor Roberts ddechrau'r wythnos, un a roddodd dros 60 mlynedd o wasanaeth diflino fel blaenor i'r eglwys yn Llansannan. Roedd ei ffyddlondeb, ei anogaeth, a'i gyngor doeth yn rhai o'r rhinweddau arbennig oedd yn perthyn iddo. Diolchwn amdano ac am sicrwydd ei ffydd, hyd yn oed pan oedd y daith yn flin. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod Glenys a fu mor ofalus ohono, ac â'r plant – Marian Jones, Dylan Roberts (Llansannan), ac Erina Roberts (Llanefydd) a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi nerth a chynhaliaeth Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, fe ddaeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Gwenda Davies (Llansannan), a hynny ychydig fisoedd yn unig wedi iddi gollu ei gŵr, Emllyn. Bu hithau yn aelod ffyddlon yng Nghapel Tanyfron cyn i'r capel gau ac i'r gynulleidfa ymuno hefo cynulleidfa Eglwys Unedig Llansannan. Diolchwn am ei chymeriad cynnes a hwyliog, am ei llais canu cyfoethog, ac am y modd yr wynebodd ei salwch mor ddi-gŵyn dros y misoedd diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i chwech o blant ac â'i dwy chwaer, un ohonynt yn aelod yn Llansannan, sef Ceridwen Evans, ac â'u teuluoedd hwythau hefyd. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Cofiw'n am eraill o'n plith sydd wedi colli anwyliaid hefyd. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt hwythau yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.

Anfonwn ein cofion at Merfyn James (Henllan) fu'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd am ychydig ddyddiau, ac at Eurgain Pierce (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Diolchwn amdanynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd gan ofyn Iddo cysgodi drostynt.



• Llongyfarchiadau i Eleri Ames, a Robin a Margaret Davies o Capel Groes ar dderbyn Medal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn oedfa arbennig yn Groes nos Sul diwethaf.

Casgliad Cenhadol Merched y Gogledd (EBC)

Anfonwyd cyfanswm o £440.00 o Fro Aled tuag at gasgliad blynyddol Merched y Gogledd (Eglwys Bresbyteriaidd Cymru) er mwyn cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor. Diolch am eich cyfraniadau eto eleni.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 21 Ebrill 2024

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Y Graig y'ch Naddwyd Ohoni

Mae hel achau wedi dod yn beth cyfarwydd iawn yn ein cymdeithas. Rydw i yn cyfarfod rhywun o hyd sy'n ymddiddori yn y maes ac yn dweud eu bod wedi dod ar draws un o'u hen deidiau. Wrth edrych yn ôl cawn ryw ymwybyddiaeth o ble y daethom. Daw ambell destun ymffrost ac ambell ddafad ddu i'r golwg. Yn sicr, wrth edrych ar gefndir unrhyw un, fe ddysgw'n mai amherffaith ydym i gyd a bod gennym bethau i ymfalchïo ynddynt a phethau i dristáu o'u herwydd. Mae hyn yn wir i ni fel cenedl hefyd.

Yn y Beibl mae'r proffwyd Eiseia yn annog ei genedl i ymhyfrydu yn ei thras gyda'r geiriau, "Edrychwch ar y graig y'ch naddwyd ohoni ac ar y chwarel lle'ch cloddiwyd." (Eiseia 51:1). Mae'n cymell y bobl i ddangos yr un teyrngarwch i Dduw ac a wnaeth eu cyn-dadau, Abraham, Isaac a Jacob. Heb ymyrraeth Duw ym mywydau'r rhain, fyddai 'na ddim cenedl i ymfalchïo ynddi a'i chadw. Duw a'i creodd ac a'i bendithiodd. Mae'r un geiriau yn ein cymell ninnau i arddel ffydd tebyg yn Nuw ac ymroddiad tebyg iddo.

Mae hanes arbennig i'n cenedl ni'r Cymry hefyd. Gwyddom fod y ffydd Gristnogol wedi chwarae rhan allweddol yn ein datblygiad a'n parhad fel cenedl. Heb y Beibl Cymraeg a phobl y ffydd, mae lle i amau a fyddem 'yma o hyd'. Gwaith Duw ydym fel cenedl ac fel unigolion. Fo sy'n rhoi ystyr a phwrpas i'n bodolaeth. Wrth geisio ei deyrnas a'i ewyllys o y darganfyddwn wir werth ein cenedl a'n hiaith. Os nad oes ystyr i'r cyfan, pa les ymdrechu i amddiffyn gwlad ac iaith a chymuned? Cawn yn Iesu Grist Waredwr ac Arglwydd i'n bywyd personol, i'n cymunedau ac i'n cenedl.

Gwylw'n gollu ystyr ein bodolaeth fel unigolion ac fel cenedl wrth anwybyddu'r Graig y naddwyd ni ohoni. Weithiau fe â talp o hanes gwerthfawr ar goll am nad oeddem wedi holi ein rhieni neu daid a nain am eu cefndir a'u profiad.

Ceisiwn yr Arglwydd tra gellir ei gael. Edrychw'n eto ar y graig y naddwyd ni ohoni.

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ebrill 21^{ain}

- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan ac yn Llanfair** am 10:00 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llanefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arfon Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnewn (a phob pnewn Sul arall).
- **Oedfa'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr gyda Huw Tan y Graig yn arwain a Mr Arfon Jones yn pregethu.

Dydd Mawrth, Ebrill 23^{ain}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel Groes am 7:30 yr hwyr.

Dydd Mercher, Ebrill 24^{ain}

- **Grŵp Gweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau** yn cyfarfod yn Festri Capel Henllan am 7:00 yr hwyr.

Dydd Iau, Ebrill 25^{ain}

- **Hwyl Pnewn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnewn. Os oes eraill am ymuno, plis cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Sul, Ebrill 28^{ain}

- **Bore Bro Aled** – Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Llanefydd am 10:30 o dan arweiniad Menna Machreth.

Dydd Llun, Ebrill 29^{ain}

- **Clwb Plant Pant Pastynog** o 3:00-4:00 y pnewn o dan ofal tîm Bro Dinbych.
- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwirydd EBC. Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565 / eirian.roberts@ebcpcw.cymru).

Dydd Mawrth, Ebrill 30^{ain}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Emynau Coll y Werin** – Cofiwch am daith y gantores Lleuwen Steffan o amgylch capeli Cymru. Bydd yn perfformio yng Nghapel y Waen, Llanelwy am 1:00 y

pnewn, ac yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7:00 yr hwyr (drysau'n agor am 6:30 yr hwyr). Bydd mynediad am ddim ond, ar gyfer perfformiad yr hwyr, gofynnir i chi gysylltu â Menter Iaith Sir Dinbych: menter@misirddinbych.cymru / 01745 812822 i sicrhau sedd.

Dydd Iau, Mai 2^{il}

- **Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd (EBC)** – Cynhelir y Dathliad eleni yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug am 2:00 y pnewn a 5:00 yr hwyr. Y siaradwyr gwadd fydd Y Parch. Nerys Griffiths, Caernarfon (y prynhawn), a'r Parch. Ddr Alun Morton Thomas, Llanfairpwll (yr hwyr). Ceir hefyd gyflwyniad yn y pnewn gan Lois Adams (Gweithiwr Cenhadol) ynglŷn ag arddangosfa o gelf gwreiddiol ar y testun 'Merched y Beibl' fydd i'w weld yn ystod y Dathliad. Yna, yng nghyfarfod yr hwyr, bydd Catrin Hampton, Gweithiwr Cenhadol gyda Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain, yn sôn am ei gwaith yn yr ardal. Bydd paned a chacen ar gael yn y Festri rhwng y ddau gyfarfod.
- **Hwyl Pnewn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnewn. Os oes eraill am ymuno, plis cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Gwener, Mai 3^{ydd}

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Mai 5^{ed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg yn Llansannan. Hefyd, yn dilyn yr oedfa yn Llansannan, bydd cyfarfod byr i newid swyddogion y Gymdeithas. Dewch â syniadau newydd ar gyfer rhaglen y tymor nesaf, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa yn Groes.

Rhaghysbys

- **Paned a Sgwrs Llansannan** – Bydd y criw yn ymweld â Chapel Waengoleugoed ar Fai 10^{fed}. Enwau i Sian (870230) erbyn dydd Sul, Mai 5^{ed}, os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (1^{af}), os gwelwch yn dda.